Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynllun Gweithredol

2026-27


Mehefin 2026

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y gweithgarwch yn ail Gynllun Gweithredol Medr. Mae'n gynllun sy'n ategu'r dyletswyddau a'r uchelgeisiau hirdymor a nodir yn ein Cynllun Strategol ac yn canolbwyntio ar gamau allweddol â blaenoriaeth y byddwn yn eu cymryd i wneud cynnydd o ran yr ymrwymiadau hynny.




Gan adeiladu ar y cerrig milltir arwyddocaol yng nghynllun y llynedd o ran sut rydym eisiau cyllido a rheoleiddio, bwriedir i'r cynllun hwn dynnu sylw at feysydd gwaith newydd â blaenoriaeth a fydd yn cael eu datblygu dros y 12 mis nesaf.

Drwy gydol y cyfnod, byddwn yn ymdrin â themâu trawsbynciol gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg, cyfranogiad, a phrofiad y dysgwr, ochr yn ochr â'n cyfrifoldebau a'n swyddogaethau cyllido a rheoleiddio craidd a pharhaus. Cefnogir y rhain gan sylfaen o ystadegau, mewnwelediadau, ymchwil a gwerthuso sy'n tyfu'n barhaus, ac sydd mor allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni er budd dysgwyr a chymunedau ledled Cymru, a hefyd yn unol â blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth.

Dros gyfnod y Cynllun Gweithredol hwn, byddwn yn cynnal y safonau uchaf o ran sut rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn unol â'n cyfrifoldebau cytundebol a statudol. Byddwn yn sicrhau parhad busnes wrth barhau i gryfhau ein diogelwch gwybodaeth a'n cydnerthedd fel sefydliad.

I gefnogi'r Cynllun, ceir polisïau, prosesau a systemau effeithiol ac ymarferol, wedi'u tanategu gan drefniadau llywodraethu cymesur. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth ac asesiadau effaith i lywio ein penderfyniadau, gan weithio mewn partneriaeth â'n hundeb,

PCS, a byddwn yn cyfleu'r penderfyniadau hyn yn glir ac yn dryloyw er mwyn sicrhau atebolrwydd i'r Senedd ac i randdeiliaid ehangach.

Yn y pen draw, mae cyflawni'r Cynllun hwn, a gwaith craidd Medr, yn ddibynnol ar ein pobl. Byddwn yn cefnogi ac yn grymuso staff i arwain yn hyderus a chael effaith yn eu gwaith gyda rhanddeiliaid ar draws y sector addysg drydyddol ac ymchwil.

Byddwn yn ymgysylltu mewn modd agored ac yn ystyrlon â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o gyflawni'r Cynllun, gan gynnwys drwy ymgyngoriadau cyhoeddus lle bo'n briodol, a byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawniad.

## Ein Gweledigaeth

Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.

## Ein Gwerthoedd

**Dysgu**
Credwn fod dysgu'n greiddiol i bopeth a wnawn. Credwn fod chwilfrydedd yn hybu arloesi ac yn helpu i ehangu ein gorwelion.

**Cydweithio**
Gallwn gyflawni llawer mwy gyda'n gilydd nag y gallem byth ei wneud ar ein pennau ein hunain.

**Cynnwys pawb**
Rydym yn frwd dros gynhwysiant, gan geisio creu'r amodau cywir i bawb gyflawni eu llawn botensial.

**Rhagori**
Mae gennym ddyheadau uchel ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru ac rydym wastad yn gosod safonau uchel i ni ein hunain er mwyn bod y gorau y gallwn fod.

# Nod Sefydlu

**Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo.**

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- adrodd i'r Bwrdd ar waith monitro ein cyllid, gan lywio dyraniadau darparwyr yn 2027/28.

### *Erbyn mis Ionawr 2027 byddwn wedi*

- yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddi Datganiad Polisi Buddsoddi sy'n egluro ein dull o gyllido a'r rhesymau wrth wraidd hynny mewn modd tryloyw, gan lywio ein penderfyniadau buddsoddi ar gyfer 2027/28.

### *Erbyn mis Chwefror 2027 byddwn wedi*

- rheoli'r broses o dderbyn darparwyr i'r Gofrestr, gan gynnwys asesu ceisiadau, cadw gwybodaeth gywir a chyfredol ar y gofrestr a chyhoeddi'r gofrestr yn effeithiol.
- cychwyn adolygiad a dadansoddiad o'r modelau cyfredol ar gyfer cyllido addysg drydyddol, a gwaith monitro cysylltiedig, a chwblhau cam un o'r rhaglen waith honno yn sail ar gyfer ein dyraniadau cyllidebol a'n hymagwedd at gyllido.

### *Erbyn mis Mawrth 2027 byddwn wedi*

- parhau i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr addysg bellach ac uwch yng Nghymru i ddiogelu buddsoddiad y cyhoedd a dysgwyr, gan gyhoeddi adroddiad cynaliadwyedd ariannol ar ein canfyddiadau er tryloywder.
- ymgynghori ar broses Asesu Risg Darparwyr newydd sy'n ein galluogi i weithredu'n effeithiol fel corff rheoleiddio sy'n ddeallus ynghylch risg.
- gweithredu argymhellion Cynllun Gweithredu Adroddiad Gillies, gan ddiwygio prosesau sicrwydd a risg Medr yn ôl yr angen, ac adrodd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gynnydd.
- gweithredu'r saith gofyniad a nodwyd yn asesiad diweddar y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau o chwe chyhoeddiad ystadegol gan Medr fel bo modd dynodi'r cyhoeddiadau hyn yn ystadegau swyddogol achrededig.
- adrodd i'n Bwrdd ar waith i fonitro ein cyllid, yn sail ar gyfer dyraniadau i ddarparwyr yn 2027/28.

### *Erbyn mis Ebrill 2027 byddwn wedi*

- cyhoeddi nifer o fetrigau sefydliadol yn erbyn ein huchelgeisiau hirdymor sydd yn adlewyrchu'r canlyniadau rydym am eu gweld ar draws y sector a hefyd yn trafod meysydd lle gallwn arfer rhywfaint o ddylanwad ystyrlon.

### *Erbyn mis Mai 2027 byddwn wedi*

- drwy ymgysylltu’n barhaus â Llywodraeth Cymru, ac yn seiliedig ar ein gwaith monitro cyllid parhaus, cyhoeddi ein dyraniadau cyllid ar gyfer addysg drydyddol, ymchwil a phrentisiaethau i gefnogi cyflawni ein Cynllun Strategol.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- adnewyddu ein rhaglen dysgu a datblygu i gefnogi cydweithwyr â'u datblygiad personol a phroffesiynol a helpu i ymgorffori egwyddorion Arweinyddiaeth y Pen a'r Galon ar draws Medr.
- drwy wrando ar brofiadau darparwyr a myfyrio ar hynny, cynnal dull cymesur o fonitro cydymffurfiaeth darparwyr â'r system reoleiddio, gan adrodd ar weithgarwch rheoleiddio drwy ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol.
- datblygu system TG i gasglu gwybodaeth am sicrwydd ac ategu adroddiadau.

# Nod Strategol 1

## Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

### *Erbyn mis Awst 2026 byddwn wedi*

- cwblhau a chyhoeddi fframwaith cyffredin ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant.

### *Erbyn mis Medi 2026 byddwn wedi*

- treialu arolwg Llais y Dysgwr ar draws nifer fach o ddarparwyr ar draws addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, a phrentisiaethau gan gyflwyno adroddiad i'n Pwyllgor Ansawdd ar y canlyniadau.
- cyhoeddi Map Trywydd y Rhagolygon Byd-eang a'i lansio mewn digwyddiad arddangos wrth inni ddatblygu ymagwedd drydyddol at feddwl am y rhagolygon byd-eang.

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- cydgynhyrchu templed cynllun gweithredu a chefnogi darparwyr gyda'u ffurflenni rheoleiddio ynghylch cyflwr llesiant staff a dysgwyr.
- cyllido a chomisiynu gwerthusiad o Raglen Partneriaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr Genedlaethol Cymru.
- parhau i gefnogi'r broses o rannu arfer da rhwng darparwyr trydyddol drwy'r Partneriaethau Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol, gan adrodd ar gynnydd gerbron ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

### *Erbyn mis Ebrill 2027 byddwn wedi*

- cyflwyno manyleb newydd ar gyfer Sgiliau Byw'n Annibynnol gyda lefelau rhaglen wedi'u hadolygu a rhaglen bontio i gefnogi dilyniant, wedi'i llywio gan dystiolaeth o adolygiadau thematig ac wedi'i hymwreiddio mewn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- parhau i ehangu cwmpas daearyddol y Prentisiaethau Iau gan gynyddu nifer y cyfleoedd ar draws darpariaeth bresennol.

### *Erbyn mis Mai 2027 byddwn wedi*

- gweithredu ar ganfyddiadau’r gwerthusiad Ymgyrraedd yn Ehangach a chyhoeddi canllawiau’r rhaglen i gryfhau'r modd y mae'r rhaglen yn cefnogi cyfranogiad a dilyniant ymhlith grwpiau tangynrychioledig.
- datblygu rhaglen o weithgareddau i'n Bwrdd ei hystyried ar gyfer sut y byddwn yn ymdrin â strategaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais

rhywiol, yn cefnogi cyflawni cynlluniau VAWDASV Llywodraeth Cymru ac yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf VAWDASV (Cymru).

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg drydyddol i gyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys monitro cynnydd darparwyr addysg drydyddol yn erbyn cynlluniau gweithredu a/neu ymrwymiadau siarter, a datblygu data monitro cydraddoldeb hiliol, gan adrodd ar ein gweithgarwch gerbron Bwrdd Medr.
- lansio arolwg Llais y Dysgwr ar gyfer dysgwyr mewn darparwyr addysg bellach, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, a darparwyr prentisiaethau yng Nghymru.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- paratoi darparwyr i weithredu'r amod cyfle cyfartal newydd drwy ddylunio rhaglen i ymgysylltu â'r sector wedi'i llywio gan strategaethau a chynlluniau cydraddoldeb LIC, gan gynnwys briffiau wedi'u targedu, sylw thematig a sesiynau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddata.
- gweithio gyda'r sector i ddatblygu a chyhoeddi adnoddau sector-benodol er mwyn helpu darparwyr i fodloni gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.
- adeiladu ar ganfyddiadau blwyddyn gyntaf y gweithgaredd peilot, a thrwy gydweithio ag NUS Cymru a phartneriaid eraill, sefydlu trefniadau i sicrhau bod llais y dysgwr yn llywio cynlluniau a phenderfyniadau Medr.
- cyllido a chefnogi gweithgareddau ar draws dysgu gydol oes, yn enwedig ym meysydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Addysg Sylfaenol i Oedolion a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, er mwyn ceisio gwella darpariaeth a phrofiad dysgwyr.
- wedi parhau i gymryd rhan mewn trafodaeth draws-sector ynglŷn â mynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â chludiant i ddysgwyr ôl-16 ac wedi rhoi data perthnasol i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio ei gwaith datblygu polisi.

# Nod Strategol 2

**Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.**

### *Erbyn mis Gorffennaf 2026 byddwn wedi*

- cyhoeddi rhaglen waith wedi'i diweddaru i adolygu fframweithiau prentisiaeth presennol, gan gynnwys ymchwiliadau manwl i sectorau â blaenoriaeth allweddol fel bo modd i'r rhaglen brentisiaeth ymateb i anghenion sgiliau ledled Cymru.

### *Erbyn mis Hydref byddwn wedi*

- cyhoeddi galwad am geisiadau i ddarparwyr ddod yn brif ddarparwyr ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd.

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- briffio Llywodraeth Cymru ynghylch yr aliniad rhwng eu blaenoriaethau sgiliau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys o ganfyddiadau dros dro Archwiliad Sgiliau Cymru, a'r ddarpariaeth berthnasol ar draws y sector trydyddol.
- ffurfioli mecanweithiau ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau i'n galluogi i brofi ein dealltwriaeth o anghenion sgiliau Cymru gyda chyflogwyr, busnes a'r diwydiant, ac i sicrhau bod llais y cyflogwr yn cael ei adlewyrchu yng ngweithgarwch Medr.

### *Erbyn mis Mawrth 2027 byddwn wedi*

- gwneud gwaith i ddarganfod yr anghenion yn gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial mewn dysgu ac addysgu, a chyhoeddi papur safbwynt.
- gwerthuso'r Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau AB ac adolygu'r Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, gan ymateb i'r canfyddiadau er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch dulliau cyllido yn y dyfodol.
- datblygu egwyddorion ar gyfer gweithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, wedi'u halinio â'r rhai sydd ar waith gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- annog gwaith partneriaeth ddinesig o fewn y sector addysg drydyddol sydd o fudd i fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru, ac arddangos effaith y gwaith hwn a rhannu arfer da mewn digwyddiadau arddangos.

### *Erbyn mis Ebrill 2027 byddwn wedi*

- sefydlu llinell sylfaen o gwricwla lleol trydyddol 16-18, gan gymdeithasoli'r broses o drosglwyddo pwerau i Medr, yn sail ar gyfer ein penderfyniadau cyn ymgynghori ar ganllawiau Medr ar gyfer cwricwla lleol.
- ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol i gwblhau a chyhoeddi ein fframwaith o gynigion ar gyfer y chweched dosbarth mewn Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod cynigion yn gydlynol, yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd â'r system drydyddol ehangach.
- mapio darpariaeth addysg drydyddol hanesyddol, gyfredol, a newydd er mwyn llywio polisi, cyllid ac unrhyw ddyletswyddau adran 94 o dan y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

### *Erbyn mis Mai 2027 byddwn wedi*

- cyhoeddi'r darparwyr fu'n llwyddiannus yn eu ceisiadau i fod yn brif ddarparwyr ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- adnewyddu dogfen fframwaith strategol Digidol 2030 a mireinio ein hymagwedd at ddysgu digidol yn unol â blaenoriaethau strategol Medr, a gefnogir drwy gyllid grant i ddarparwyr dysgu.

# Nod Strategol 3

**Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus.**

---

### *Erbyn mis Medi 2026 byddwn wedi*

- wedi datblygu amrywiaeth o ystadegau ynghyd â gwaith meincnodi cyd-destunol a delweddu cysylltiedig y gellid eu defnyddio fel ein mesurau perfformiad i ategu ein gwaith monitro ansawdd ac a gaiff eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd.

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- ymgynghori ar ein mesurau perfformiad a'r defnydd strategol o'r mesurau hynny ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru a thu hwnt.

### *Erbyn mis Mawrth 2027 byddwn wedi*

- datblygu ac ymgynghori ar gynigion am raglen datblygu arweinyddiaeth systemau ar gyfer y sector addysg drydyddol, yn dilyn gwaith archwiliadol cychwynnol a gynhaliwyd yn 2025/26.

### *Erbyn mis Mai 2027 byddwn wedi*

- gan gydweithio'n agos ag Estyn, nodi ein gofynion ar gyfer Cynllun Blynyddol y Prif Arolygydd a chadarnhau dyraniadau cyllid i gyflawni agweddau perthnasol yn y Cynllun Blynyddol.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- gweithio gyda darparwyr i weithredu ein Fframwaith Ansawdd, gan ddarparu asesiad o'n gwaith monitro ansawdd yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol.
- gan weithio'n agos gyda'r QAA, sefydlu'r cylch gwaith er mwyn i'r QAA gyflawni swyddogaethau asesu ansawdd ar ran Medr.
- arwain a chyflwyno rhaglen aml-flwydd gydlynol sy'n sbarduno cydweithio ac yn sicrhau datblygiad partneriaeth gymdeithasol mewn addysg drydyddol sy'n gynaliadwy ac yn hirdymor.
- cyflawni rhaglen o weithgareddau gwelliant parhaus, a fydd yn cynnwys ffocws ar ddarpariaeth Safon Uwch gydweithredol, pontio o UG i U2, a chefnogaeth effeithiol i greu dysgwyr gwydn.
- gweithio gyda darparwyr addysg drydyddol i fynd i'r afael ag argymhellion ein hastudiaeth cwmpasu dysgu proffesiynol, gan ganolbwyntio ar yr agweddau lle gall Medr gynnig gwerth, cefnogaeth ac arweiniad ychwanegol.

# Nod Strategol 4

**Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.**

### *Erbyn mis Medi 2026 byddwn wedi*

- briffio Gweinidogion newydd ynghylch sut y gellir cefnogi'r ecosystem ymchwil ac arloesi i gynyddu cyfran y cyllid a geir o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- adrodd ar ein gwaith gyda Rhwydwaith Arloesi Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru i'n Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, gan hyrwyddo cydweithio yn seiliedig ar gryfderau Cymru ac ar rannu arferion da a chefnogi system ymchwil ac arloesi gynaliadwy sy'n creu'r budd mwyaf i Gymru.

### *Erbyn mis Mawrth 2027 byddwn wedi*

- adrodd i'n Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ar y gwaith gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu'r gweithlu ymchwil ac i greu amgylcheddau ymchwil ac arloesi cadarnhaol a chynhwysol, gan gynnwys effaith a chanlyniadau dyraniadau WREC, adolygiad o'n cyllid ar gyfer Gwasg Prifysgol Cymru a chwmpasu cefnogaeth ledled Cymru ar gyfer goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-radd.
- fel rhan o'n gwaith gyda chyrff cyllido eraill y DU ar ddatblygu a gweithredu Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2029, cymeradwyo Codau Ymarfer REF 2029 ar gyfer prifysgolion yng Nghymru.
- cefnogi'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT), Innovate UK, UKRI a chyrff cyllido eraill y DU i ddeall cyd-destun Cymru er mwyn llywio datblygiad polisïau ar raddfa'r DU, drwy gyfarfodydd rheolaidd a chyfrannu at ymgyngoriadau, gan adrodd ar y gweithgarwch hwn i'n Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.
- er mwyn cefnogi cyflawni Strategaeth Arloesi Cymru, parhau i gefnogi a rhoi cymhellion ar gyfer cymhwyso ymchwil a ariennir gennym drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) yn ymarferol, a gweithgareddau eraill i ddatblygu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth, gan adrodd ar y canlyniadau a'r effaith gerbron y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.
- datblygu telerau ac amodau cryfach ar gyfer ein cyllid a'n gwaith monitro ymchwil ac arloesi craidd drwy broses sicrhau risg Medr, i sicrhau bod ein buddsoddiad yn cefnogi capasiti ymchwil ac arloesi cynaliadwy ac ymatebol ac yn ategu gallu prifysgolion i gystadlu am gyllid allanol.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- datblygu ac ymgynghori ar gasgliad o fetrigau ar gyfer casglu a chyfleu effaith gymdeithasol ac economaidd ehangach y gweithgarwch ymchwil ac arloesi a

gefnogir gennym, a chyhoeddi'r metrigau hynny, gan fanteisio ar fewnwelediadau o weithgarwch cyfochrog gan randdeiliaid eraill.

- gweithio gyda Colegau Cymru i greu rhwydwaith arloesi addysg bellach i gefnogi ymagwedd fwy trydyddol at weithgarwch arloesi yng Nghymru.
- datblygu cynllun i gefnogi gweithgarwch cydlynol sydd, yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a Map Trywydd y Rhagolygon Byd-eang, yn cynyddu amlygrwydd ymchwil ac arloesi a gynhelir yng Nghymru i gynulleidfaoedd cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol, ac yn dangos ei effaith a'i fanteision.

# Nod Strategol 5

**Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

### *Erbyn mis Rhagfyr 2026 byddwn wedi*

- cyhoeddi ein hymgynghoriad ar Gynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol sydd wedi'i lunio ar y cyd â gweithgor o bartneriaid allweddol, ac sy'n rhoi ystyriaeth i Ddeddf y Gymraeg ac Addysg.

### *Erbyn mis Mawrth 2027 byddwn wedi*

- rhoi cynllun gweithredu ar waith i gyflawni ein hamcanion o ran y Polisi Cymraeg, gan hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Medr, ac adrodd ar gynnydd i'n Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

### *Erbyn mis Ebrill 2027 byddwn wedi*

- cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol.
- gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a Chymwysterau Cymru i ddadansoddi data ar y gweithlu addysg ôl-16, gan archwilio gallu staff addysgu i siarad ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl maes pwnc, er mwyn helpu i lywio gwaith ein Cynllun Cenedlaethol.

### *Erbyn mis Gorffennaf 2027 byddwn wedi*

- parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ehangu a gwella ansawdd data'r Gymraeg ar draws addysg drydyddol, er mwyn llywio gwaith cynllunio a monitro a phenderfyniadau'n well.
- ymestyn cymhelliant y Gymraeg i gynnwys rhai sy'n astudio'r TAR AB yn rhan-amser ac o fewn sefydliadau AB, gan fonitro'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig a gwerthuso'i effaith, yn ogystal ag archwilio opsiynau i'w hyrwyddo, gan gadarnhau'r estyniad drwy ein cyhoeddiad.
- cynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth yng nghanllawiau ymgeisio 2026/27 ar gyfer y Gronfa Dysgu Proffesiynol, archwilio'r trefniadau o ran hyrwyddo addysgu a defnyddio sgiliau Cymraeg presennol yn ogystal â datblygu sgiliau newydd.
- parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol o fewn y gweithlu addysg drydyddol, fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddeall ac egluro ein rolau wrth iddynt ddatblygu mewn cyd-destun sy'n esblygu o ran polisi a rheoleiddio, ac archwilio cyfleoedd i gydweithio er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i staff darparwyr fod yn hyderus wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- gweithio gyda darparwyr addysg drydyddol i gyhoeddi canllawiau ymarferol, anstatudol i gefnogi cydymffurfiaeth ag amod y Gymraeg.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**